# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 20.07.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr: Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Alwyn Gruffydd, Peredur Jenkins, Aeron Jones, Eric M. Jones, Linda W. Jones, Liz Saville Roberts, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, R.H. Wyn Williams  a'r Cynghorydd Huw Edwards, (aelod Ex-officio).

**Hefyd yn Bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Alwyn Evans-Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol), Rhun ap Gareth, (Uwch Gyfreithiwr) ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu – ar gyfer eitemau 1, 2 a 3 ar y rhaglen).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Sian Gwenllian a David Gwynfor Edwards,

## 1. CADEIRYDD

Esboniwyd  na chaiff yr un aelod wasanaethu fel cadeirydd mwy nag un pwyllgor. Yn unol â'r cyfansoddiad felly, 'roedd angen ethol Cadeirydd ar gyfer 2012/13.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Linda W. Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2012/13.**

## 2. IS-GADEIRYDD

Cafwyd cadarnhad bod y bleidlais flaenorol ynglŷn ag ethol yr Is-gadeirydd yn sefyll ac mai  Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2012/13 fyddai'r Cynghorydd Alwyn  Gruffydd.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. CAU  ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth  yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

## 5. RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN

Cafwyd amlinelliad ar yr unig gais a dderbyniwyd ac ystyriodd yr aelodau'r ymgeisydd ar gyfer y swydd.

**PENDERFYNWYD rhoddi'r person ar y rhestr fer.**

Nodwyd fod y Cynghorydd Alwyn Gruffydd wedi pleidleisio yn erbyn y penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 3:00p.m. a daeth i ben 4:15pm